**Eitem ar yr agenda: 7**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU |
| **DYDDIAD:** | 19 MEDI 2005 |
| **ADRODDIAD GAN:** | Y TRYSORYDD |
| **PWNC:** | ADOLYGIAD O BENSIYNAU |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Sefydlwyd Darpariaeth Bensiynau yn 1997-98 ar ôl gwneud dadansoddiad i ragweld taliadau cymudiad. Gwelodd y dadansoddiad y gallai'r taliadau cymudiad gael effaith bendant ar ofynion y gyllideb oherwydd bod ymddeoliadau'n amrywio. Er mwyn osgoi cynyddiadau annerbyniol yn y cyfraniad a ddarperir gan yr Awdurdodau Cyfansoddol, cafodd Darpariaeth Bensiynau ei sefydlu. Bob blwyddyn ers sefydlu'r Ddarpariaeth, mae adolygiad o'r sefyllfa bensiynau yn cael ei gynnal, a'r canfyddiadau'n cael eu hadrodd i'r Awdurdod Tân.

1.2 Mae'r Llywodraeth wrthi'n ymgynghori ynghylch cynigion ar gyfer Cynllun newydd ar gyfer Pensiynau'r Diffoddwyr Tân ac mae disgwyl iddo ddod i rym yn Lloegr ar 1 Ebrill 2006. Y disgwyl yw y bydd y gweinyddiaethau sydd wedi eu datganoli megis Llywodraeth y Cynulliad yn adlewyrchu'r cynigion hyn. Serch hynny, nid oes unrhyw gynnig pendant na dyddiad cychwyn wedi cael eu cadarnhau.

## 2. Y CYNLLUN PRESENNOL

2.1 Cynhaliwyd adolygiad o sefyllfa bresennol y Ddarpariaeth Bensiynau ac effaith amcangyfrifedig ymddeoliadau yn y dyfodol. Mae'r Atodiad sydd ynghlwm yn gosod allan ganlyniadau'r adolygiad, ac mae'n rhoi dadansoddiad o'r nifer amcangyfrifedig o staff fydd yn ymddeol.

2.2 Mae'r ffigyrau yn yr Atodiad yn cynnwys y manylion a'r rhagdybiaethau canlynol. Fel rhan o broses gosod y gyllideb ar gyfer 2005-2006, penderfynwyd ymatal rhag gwneud cyfraniad i'r Ddarpariaeth Bensiynau er mwyn lleihau'r gofyniad cyllidebol. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch newidiadau i'r cynllun, ni ddangosir cyfraniad i'r Ddarpariaeth yn 2006-2007. Mae amcangyfrif wedi cael ei wneud o'r cyfraniadau angenrheidiol o'r gyllideb refeniw i'r Ddarpariaeth Bensiynau er mwyn ymorol am ymrwymiadau amcangyfrifedig yn y dyfodol gan nad oes cyfraniad yn 2006-2007: sef cyfraniad o £160,000 am 10 mlynedd yn cychwyn yn 2007-2008.

## 3. Y CYNLLUN NEWYDD – Y SEFYLLFA BRESENNOL

3.1 Dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, daeth pensiynau yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y Cynulliad. Daeth Offeryn Statudol Rhif 2004-2918 i rym ar 11 Tachwedd 2004, ac roedd yn darparu bod Cynllun Pensiwn y Dynion

Tân, a sefydlwyd dan Adran 26 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân 1947, i barhau mewn grym yng Nghymru. Roedd y Gorchymyn hefyd yn darparu ar gyfer newid enw'r Cynllun i "Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru)"

3.2 Ar 13 Hydref 2004, cyhoeddodd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) Gylchlythyr y Gwasanaeth Tân 44-2004 – Adolygiad o Drefniadau Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Roedd y Cylchlythyr hwn yn ymorol am gynigion y Llywodraeth ar gyfer cynllun pensiwn newydd ar gyfer y diffoddwyr tân, a chynigion ar gyfer newidiadau i'r cynllun pensiwn presennol. Roedd y ddogfen ymgynghorol yn nodi dyddiad cychwyn ar gyfer y cynllun newydd sef 1 Ebrill 2006. Y prif effaith ar y Gwasanaeth Tân ac Achub fyddai bod modd i ddiffoddwyr tân rhan amser ymaelodi â'r cynllun.

3.3 Ar 8 Chwefror 2005, cyhoeddodd yr ODPM ymgynghoriad pellach ar y "Cynigion ar gyfer Trefniadau Ariannol Newydd ar gyfer Pensiynau'r Diffoddwyr Tân", ar gyfer Lloegr yn unig roedd yr ymgynghoriad hwn gyda dim ond awgrym y byddai'r cynllun yn dechrau ar 1 Ebrill 2006.

3.4 Yng Nghymru, nid yw'n sicr a fydd y cynllun a'r trefniadau cyllido mewn lle yn Ebrill 2006. Hyd yn hyn, ni fu unrhyw ymgynghoriad rhwng y Cynulliad a'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Pan ddaw rhagor o wybodaeth, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno ar yr effaith ar yr Awdurdod, a'r effaith ar yr Ddarpariaeth Bensiynau.

## 4. ARGYMHELLION

(i) Na wneir unrhyw gyfraniad i'r Ddarpariaeth Bensiynau yn 2006-2007.

(ii) Y taliadau i'r Ddarpariaeth Bensiynau i ailgychwyn yn 2007-2008 os bydd cyllido y Cynllun Pensiwn yn aros yr un fath.